# GWNEUD GWAHANIAETH

## Cynllun Corfforaethol y Cyngor

## 2020 – 2024

Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf



RHONDDA CYNON TAF

Tud **Cynnwys**


**01.** **Neges gan Arweinydd y Cyngor**

**02.** **Adran 1:** Yr hyn rydyn ni eisiau'i gyflawni

**03.** **Adran 2:** Ein Blaenoriaethau

**04.** **Adran 3:** **Pobl:** Sy'n annibynnol, iach a llwyddiannus

**06.** **Adran 4:** **Lleoedd:** lle mae pobl yn falch o gael byw, gweithio a chwarae ynddyn nhw

**08.** **Adran 5:** **Ffyniant:** Creu'r cyfle i bobl a busnesau fod yn arloesol, yn entrepreneuraidd ac i gyflawni eu potensial a ffynnu

**10.** **Adran 6:** Ein Dull

**11.** **Adran 7:** Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

**12.** **Adran 8:** Sut mae'r Cynllun Corfforaethol yn cyfrannu at y Nodau Llesiant cenedlaethol


## Cysylltwch â ni...

Rhowch wybod i ni beth yw eich barn am y cynllun hwn

Ar y we: **www.rctcbc.gov.uk/DweudEichDweud** *neu* **www.rctcbc.gov.uk/RhoiGwybod**

Ar Twitter: **@CyngorRhCT** *neu* **www.twitter.com/CyngorRhCT**

Trwy Facebook: **www.facebook.com/RCTCouncil**

Drwy Flog yr Arweinydd: **www.rctcbc.gov.uk/BlogyrArweinydd**

Helpwch ni i wella drwy roi'ch sylwadau, eich canmoliaeth a'ch cwynion: **www.rctcbc.gov.uk/adborth**

Drwy ddod yn rhan o Banel y Dinasyddion: **www.rctcbc.gov.uk/YmunoarPanel**

Drwy gymryd rhan yn ein hymgynghoriadau: **www.rctcbc.gov.uk/CymrydRhan**

Drwy'r Garfan Ymgynghori: **ymgynghori@rctcbc.gov.uk**

Drwy Hwb Ymgysylltu Cwm Taf: **www.EinCwmTaf.Cymru**

Manylion cyswllt eich Cynghorydd lleol: **www.rctcbc.gov.uk/cynghorwyr**

Ydych chi'n awyddus i gymryd yr awenau gan y Cyngor am redeg cyfleuster neu wasanaeth? **www.rctcbc.gov.uk/rhctgydangilydd**

# Neges gan Arweinydd y Cyngor

Mae Rhondda Cynon Taf yn lle arbennig i fyw, gweithio a chwarae ynddo ac er gwaethaf y cyni parhaus, mae gan y Fwrdeistref Sirol botensial mawr i ddod yn fwy ffyniannus a llwyddiannus yn ystod y blynyddoedd i ddod.



Rydyn ni eisoes wedi gwneud gwahaniaeth go iawn. Yn ystod y pedair blynedd ddiwethaf, mae'r Cyngor wedi cyflawni ei Gynllun Corfforaethol cyntaf - Y Ffordd Ymlaen 2016-2020, ac wedi buddsoddi bron i £400miliwn mewn meysydd blaenoriaeth megis:

- **£170miliwn** - Ysgolion yr 21ain Ganrif;
- **£85miliwn** - Priffyrdd, Trafnidiaeth a Seilwaith eraill;
- **£15miliwn** - parciau, mannau chwarae, canolfannau hamdden a chyfleusterau chwaraeon awyr agored; ac
- **£95miliwn** er mwyn adfywio ein canol trefi ac asedau yn y gymuned.

Wrth i ni edrych tuag at y dyfodol, byddwn ni'n dymuno adeiladu ar beth rydyn ni wedi'i gyflawni hyd yn hyn a sicrhau bod pob tref a chymuned yn Rhondda Cynon Taf yn lle gwych i fyw, gweithio a chwarae ynddi.

Mae'r byd yn newid yn gyflym, yn enwedig o ran y diwydiant technoleg. O ganlyniad i hynny, mae'n bwysig ein bod ni'n cadw'n effro i gyflymder newid a gwneud y gorau o'r cyfleoedd sy'n ymddangos, megis technoleg sy'n galluogi byw'n annibynnol. Trwy wneud hyn, byddwn ni'n derbyn newid a gweithredu mewn modd arloesol yn y ffordd rydyn ni'n darparu gwasanaethau i breswylwyr. Mae'r Cynllun Corfforaethol newydd yn pennu sut rydyn ni'n bwriadu buddsoddi ar gyfer y dyfodol.

Fel pob Cyngor, rydyn ni'n parhau i wynebu her ariannol anodd. Mae rhagor o bobl angen ein gwasanaethau, ac mae yna hefyd ansicrwydd cynyddol ynghylch lefelau cyllid yn y dyfodol. Mae hyn yn golygu ein bod ni wedi gorfod gwneud rhai penderfyniadau anodd ynghylch ble rydyn ni'n blaenoriaethu a gwario'n hadnoddau. Mae hefyd wedi cynnig cyfleoedd i ni fod yn arloesol. Rydyn ni wedi gorfod meddwl am ddulliau amgen o weithio a dulliau mwy effeithlon o ran darparu gwasanaethau i sicrhau ein bod ni'n cynnal y safon uchel o ran darpariaeth y mae pobl yn ei disgwyl. Mae hyn yn cynnwys sicrhau bod yna drefniadau rheoli cadarn o ran ein cyllidebau a chontractau, lleihau ein costau rheoli a chostau swyddfa gefn a sicrhau ein bod ni'n cynnig gwerth am arian i'r talwr trethi

Mae cynllunio ariannol hir dymor yn allweddol er mwyn sicrhau bod y dull yma'n parhau i fod yn llwyddiannus. Yn ystod y pedair blynedd ddiwethaf, rydyn ni wedi cael y cynydd cronnus isaf yn Nhreth y Cyngor ledled Cymru a byddwn ni'n ceisio sicrhau bod Treth y Cyngor yn parhau i fod yn fforddiadwy dros y pedair blynedd nesaf. Mae'r cynydd rydyn ni wedi'i gynnwys yn cynrychioli'r isafswm rydyn ni ei angen er mwyn mantoli'r gyllideb a thalu am wasanaethau hanfodol, megis diogelu ein preswylwyr hŷn ac iau. Mae adborth yr ymgynghoriad ar y gyllideb yn cefnogi'r dull yma, a bydd hefyd cyfle i ddweud eich dweud ar lefel Treth y Cyngor sy'n cael ei bennu bob blwyddyn. Rydw i o hyd yn ddiolchgar am yr adborth rydyn ni'n ei dderbyn yn rhan o'r dasg ymgynghori flynyddol yma gan ei fod yn ein helpu ni i wybod pa feysydd rydych chi'n dymuno gweld y Cyngor yn eu blaenoriaethu dros y flwyddyn nesaf.

Rydyn ni o hyd yn gwrando ac yn ceisio ymateb i'r deilliannau. Yn ystod 2019/20, roedd y cynnydd gwerth 3.6% yn Nhreth y Cyngor a gafodd ei gymeradwyo gan y Cyngor yn llai na'r cynnydd ar gyfartaledd, sef 4.45%, nododd ein trigolion y bydden nhw'n fodlon ei dalu i ddiogelu'n gwasanaethau. Roedd hefyd llawer yn llai na chyfartaledd Cymru gyfan, sef cynnydd ar gyfartaledd o 6.15%.

Er yr heriau, rydw i'n parhau i fod yn uchelgeisiol a chadarnhaol o ran fy rhagolwg ar gyfer Rhondda Cynon Taf a'r bobl sy'n byw a gweithio yma. Mae ein cynllun yn nodi ein tair prif flaenoriaeth a sut rydyn ni'n cynnig i gyflawni cyfres o ymrwymiadau

Mae sicrhau amgylchedd glân, dymunol ac sydd wedi'i gynnal yn dda yn parhau i fod ar frig y rhestr yma. Rydyn ni'n gwybod bod casgliadau gwastraff ac ailgylchu effeithlon, mannau gwyrdd croesawgar, strydoedd glân a ffyrdd wedi'u cynnal yn dda ymhlith rhai o'r ffyrdd y mae modd i ni gefnogi ansawdd bywydau pob dydd ein preswylwyr. Felly, byddwn ni'n parhau i gyflawni camau gweithredu i fynd i'r afael â throseddau amgylcheddol megis tipio'n anghyfreithlon, baw cŵn a thaflu sbwriel.

Wrth i ni barhau i weithio er mwyn sicrhau costau is o ran cynnal y Cyngor o ddydd i ddydd er mwyn sicrhau arbedion, rydyn ni'n parhau i fuddsoddi'n fawr yn nyfodol seilwaith y Fwrdeistref Sirol. Rydyn ni eisoes wedi neilltuo £170miliwn i fuddsoddi mewn adeiladu ysgolion newydd, cartrefi gofal ychwanegol, gwelliannau i'n ffyrdd a'n palmentydd, ein mannau gwyrdd, canolfannau hamdden, llyfrgelloedd ac adeiladau yn y gymuned. Rydyn ni eisoes wedi gwneud cynnydd da o ran gwella ein canol trefi i greu amgylchedd lle mae modd i fusnesau ffynnu a lle mae pobl yn dymuno byw, gweithio ac ymweld â nhw. Rydyn ni wedi cynllunio buddsoddiad pellach er mwyn dod a swyddi a chartrefi i ganol trefi a chyfleoedd ar gyfer gweithgareddau hamdden a gweithgareddau cymdeithasol.

Mae'n debygol y bydd y buddsoddiad i seilwaith y Cyngor yn mynd tu hwnt i £400miliwn erbyn diwedd y cyfnod o bedair blynedd wrth i gynlluniau newydd gael eu gwireddu ac wrth i ni wneud y gorau o fuddion buddsoddiad Llywodraeth Cymru mewn perthynas â Metro De Cymru a Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd.

Ein huchelgais yw sicrhau bod pawb mor iach, annibynnol a ffyniannus ag sy'n bosibl yn ystod eu bywydau. Mae agor y drws i addysg dda, datblygu sgiliau a chynnig cyfleoedd cyflogaeth o safon i gyd yn feysydd blaenoriaeth allweddol. Wrth i ni fynd ati i dderbyn y newidiadau sydd o'n blaenau, rydyn ni'n parhau i ymrwymo'n llwyr i sicrhau ein bod ni'n diogelu ein plant ac oedolion sy'n agored i niwed mewn modd effeithiol. Fydd yr ymrwymiad yma ddim yn newid. Byddwn ni'n parhau i geisio lleihau nifer y plant sy'n derbyn gofal trwy ymyrraeth gynnar ac atal a cheisio dulliau arloesol i gefnogi'n genhedlaeth hŷn.

Yng nghyd-destun lleihau cyllidebau a phwysau sy'n gysylltiedig â galw cynyddol, mae rôl draddodiadol Awdurdod Lleol fel darparwr gwasanaeth yn newid. Mae gweithio gyda phartneriaid megis yr heddlu a gwasanaethau iechyd yn hanfodol er mwyn mynd i'r afael â heriau cymhleth ac amlochrog sy'n wynebu ein cymunedau a gwasanaethau craidd. Byddwn ni hefyd yn gweld perthynas wahanol gyda chymunedau yn dod i'r amlwg - un lle rydyn ni'n gweithio gyda'n gilydd ac mae preswylwyr a busnesau'n ymgymryd â chyfrifoldeb ar gyfer nhw eu hunain a'r cymunedau lle maen nhw'n byw a gweithio. Rydyn ni'n ffodus iawn i gael grwpiau busnes, gwirfoddol, cymunedol a chrefyddol cryf ar draws RhCT, a byddan nhw'n parhau i chwarae rhan bwysig o ran datblygu'r ddynameg newydd ar hyd a lled y Fwrdeistref Sirol.

Ein her fwyaf fydd i gyflawni ymrwymiad y Cyngor sef "Cyngor Nwy Tŷ Gwydr Sero Net erbyn 2030" sydd 20 blynedd yn gynt nag argymhelliad Pwyllgor y DU ar faterion Newid yn yr Hinsawdd. Dyma her rydyn ni'n ei chymryd o ddifrif ac rydyn ni'n edrych ymlaen at dderbyn cymorth yr holl breswylwyr lleol a busnesau er mwyn gweithio gyda'n gilydd i newid y ffordd rydyn ni'n byw ein bywydau er mwyn cyflawni'r amcan yma.

Rydw i'n gobeithio y bydd y Cynllun Corfforaethol yma'n eich helpu chi i ddeall rhagor am sut mae'r Cyngor yn mynd i'r afael â'r heriau a'r cyfleoedd dros y pedair blynedd nesaf, a sut mae modd i ni weithio gyda'n gilydd i sicrhau Rhondda Cynon Taf gwell.

A. Morgan

**Y Cynghorydd Andrew Morgan**
*Arweinydd y Cyngor*

RHONDDA CYNON TAF

adran 1

# Yr hyn rydyn ni eisiau'i gyflawni

Gweledigaeth y Cyngor yw:

> *"I Rondda Cynon Taf fod y lle gorau yng Nghymru i fyw, gweithio a chwarae ynddo, lle mae pobl a busnesau yn annibynnol, yn iach ac yn llewyrchus."*

Dyma fwriad y Cyngor a'r rheswm dros ei fodolaeth:

> *"I ddarparu arweinyddiaeth gymunedol gref a chreu amgylchedd lle mae modd i bobl a busnesau fod yn annibynnol, cyflawni eu potensial a ffynnu."*



adran 2

# Ein Blaenoriaethau

Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i gyflawni tair prif flaenoriaeth:











Mae ein blaenoriaethau a'n hymrwymiadau wedi'u nodi isod ac yn darparu fframwaith sy'n llywio popeth a wnawn.




adran 3

# POBL:
## Sy'n annibynnol, iach a llwyddiannus.



**Cefnogi ein trigolion sy'n hŷn, agored i niwed, neu sydd ag anableddau, er mwyn iddyn nhw barhau i fod yn annibynnol a mwynhau bywyd o safon.**



### Er mwyn cyflawni hyn, byddwn ni'n...

- Agor cynlluniau Gofal Ychwanegol ar gyfer pobl sydd angen cymorth ychwanegol er mwyn parhau i fyw'n annibynnol;
- Cynnig gwasanaethau galluogi er mwyn helpu pobl i adennill eu hannibyniaeth neu'i chynyddu;
- Defnyddio technoleg i wella annibyniaeth a chynorthwyo â threfniadau gofal;
- Cynnig cymorth i gynhalwyr;
- Darparu cymorth ac offer sy'n galluogi pobl i aros yn fwy annibynnol yn y cartref;
- Comisiynu amrywiaeth o ddarpariaethau yn y gymuned er mwyn galluogi pobl i barhau i fod yn rhan weithgar o'u cymuned.

**Annog pob preswylydd i fyw bywydau gweithgar ac iach a chynnal llesiant meddyliol.**



### Er mwyn cyflawni hyn, byddwn ni'n...

- Cyflawni cyfleusterau chwaraeon dan do ac awyr agored newydd a gwella cyfleusterau chwaraeon cyfredol megis ystafelloedd newid a mannau chwarae awyr agored;
- Sicrhau bod cyfloedd i gymryd rhan mewn chwaraeon a gweithgarwch corfforol yn hygyrch a chynhwysol i bawb trwy gynnal costau is, darpariaeth o ansawdd uchel;
- Rhoi cyfle i breswylwyr gael mynediad i wybodaeth iechyd a llesiant a gweithgareddau yn rhan o gynlluniau atgyfeirio Meddyg Teulu, a rhaglenni ymyrraeth iechyd a lles eraill;
- Cynyddu ymgysylltiad a chyfranogiad yn y celfyddydau a diwylliant, gan ddatblygu ein theatrau i fod yn fwy cynhwysol a hygyrch i'r gymuned gyfan;
- Parhau i ddatblygu canolfannau yn y gymuned lle bydd gan breswylwyr gyfle i gwrdd, cymdeithasu a manteisio ar amrywiaeth o wasanaethau'r Cyngor a gwasanaethau eraill.










**Integreiddio gofal iechyd a chymdeithasol a darparu cymorth i'r rheiny â phroblemau iechyd meddwl ac anghenion cymhleth.**



### Er mwyn cyflawni hyn, byddwn ni'n...

- Gweithio gyda'r Bwrdd Iechyd lleol a Meddygon Teulu i ddarparu rhagor o wasanaethau iechyd a gofal yn agosach i'r cartref;
- Gweithio gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg i sicrhau rhyddhau cleifion o'r ysbyty mewn modd amserol;
- Cynnig cymorth ymyrraeth gynnar er mwyn i bobl gadw'n weithgar a bod yn fwy annibynnol yn y gymuned;
- Parhau i gynnig cymorth i oedolion oedran gwaith sydd ag anghenion iechyd meddwl;
- Cyflwyno model rhagnodi cymdeithasol ar gyfer atgyfeirio pobl i ymyraethau yn y gymuned, gan gynnwys; dosbarthiadau ymarfer corff, dosbarthiadau addysg i oedolion, Dydd Gwener Digidol, clybiau darllen y Llyfrgelloedd ac ati.

**Gwella gwasanaethau i blant a phobl ifainc a sicrhau bod anghenion plant yn cael eu hystyried ym mhob rhan o'n gwaith.**



### Er mwyn cyflawni hyn, byddwn ni'n...

- Ceisio lleihau nifer y plant sy'n derbyn gofal trwy weithio gyda theuluoedd i ymyrryd yn gynnar pan fydd problemau'n codi gan ganolbwyntio ar ddulliau ymyraeth ac atal i gadw teuluoedd gyda'i gilydd yn ddiogel;
- Gwella iechyd cymdeithasol, emosiynol a meddyliol a llesiant plant a phobl ifainc trwy gynyddu'r amrywiaeth o wasanaethau arbenigol sydd ar gael;
- Atal pobl ifainc rhag dod ynghlwm â thrais, trosedd, camfanteisio ac ymddygiad gwrthgymdeithasol trwy gynnig amrywiaeth ddulliau ymyrraeth gynnar ac ymgysylltu sy'n ymwneud â diwylliant, chwaraeon a phethau eraill;
- Bod yn rhiant corfforaethol da i blant mewn gofal a'r rheiny sy'n gadael gofal, a'u cefnogi a'u cynnwys wrth sicrhau'r cyfleoedd tai, cyflogaeth, addysg neu hyfforddiant mwyaf addas;
- Gweithio mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru, anelu at leihau tlodi ymhlith plant, darparu gwasanaethau sy'n annog a meithrin gwydnwch ymhlith plant a'u teuluoedd.



adran 4

# LLEOEDD:
## lle mae pobl yn falch o gael byw, gweithio a chwarae ynddyn nhw.




**Cadw RhCT yn lân trwy wasanaethau glanhau'r stryd effeithlon, lleihau'r gwastraff rydyn ni'n ei anfon i'r safle tirlenwi, cyflawni ein targedau ailgylchu trwy gasglu gwastraff ailgylchu bob wythnos a gwastraff cyffredinol yn rheolaidd, a lleihau ein hôl-troed carbon.**



### Er mwyn cyflawni hyn, byddwn ni'n...

- Cefnogi preswylwyr i leihau gwastraff a chynyddu ailgylchu i 80% trwy weithio gyda nhw a gweithio gyda busnesau ar fentrau sy'n hyrwyddo lleihau gwastraff ac ailddefnyddio deunyddiau;
- Buddsoddi mewn technoleg i gynyddu swm y gwastraff rydyn ni'n ei ailgylchu a'i ailddefnyddio'n lleol;
- Gweithio gyda phreswylwyr, landlordiaid ac asiantau i wella cyfraddau ailgylchu ym mhob preswylfa;
- Gweithio gyda phreswylwyr a chymunedau i leihau nifer yr achosion o daflu sbwriel, baw cŵn, tipio'n anghyfreithlon a pharcio'n anghyfreithlon, gan ddefnyddio grymoedd gorfodi yn ôl yr angen;
- Caffael cerbydau sy'n addas i'r diben ond sy'n cael effaith gyfyngedig ar yr amgylchedd;
- Creu dull cylchol o ran ailgylchu ac ailddefnyddio deunydd gwastraff, gan gynnwys plastig Bydd hyn yn cynnwys datblygu'r Parc Eco ym Mryn Pica;
- Dileu plastigau defnydd untro megis cwpanau coffi mewn ysgolion a chyfleusterau eraill y Cyngor.

**Cadw'r Fwrdeistref Sirol yn symud, gan gynnwys cyflawni gwelliannau ar y ffyrdd a phalmentydd a thrafnidiaeth gyhoeddus, gan wella ansawdd yr aer.**



### Er mwyn cyflawni hyn, byddwn ni'n...

- Parhau i wella cyflwr ein ffyrdd a'n palmentydd a buddsoddi yn ein pontydd, waliau cynnal a systemau draenio llifogydd cynaliadwy;
- Annog defnydd o drafnidiaeth gyhoeddus trwy ddatblygu Metro De Cymru, cerdded a beicio trwy fuddsoddi mewn mentrau teithio llesol;
- Gweithio gyda Llywodraeth Cymru a'r Awdurdod Trafnidiaeth Ranbarthol i barhau i wella mynediad i drafnidiaeth gyhoeddus ac archwilio cyfleoedd i ddod â thrafnidiaeth gyhoeddus sydd ddim yn cael ei defnyddio mwyach, megis rheilffyrdd, llwybrau bysiau, a theithio llesol;
- Archwilio cyfleoedd i ddatblygu rhwydwaith beicio i gyrchfannau mawr y Fwrdeistref Sirol heb rwystro prif lwybrau traffig;
- Hyrwyddo a buddsoddi yn y cynllun cyflwyno cyfleoedd gwefrio cerbydau trydan;
- Defnyddio mesurau gorfodi er mwyn cynyddu cydymffurfiaeth a chefnogi traffig i symud mewn modd rhwydd a diogel.



**Sicrhau bod y Fwrdeistref Sirol yn un o'r lleoedd mwyaf diogel yng Nghymru, gyda lefelau uchel o gydlyniant cymunedol a lle mae trigolion yn teimlo'n ddiogel.**



### Er mwyn cyflawni hyn, byddwn ni'n...

- Cefnogi'r sectorau gwirfoddol, cymunedol a chrefyddol er mwyn helpu i ffurfio cymunedau gweithredol, gan greu'r capasiti i fodloni anghenion preswylwyr yn eu cymunedau;
- Gweithio gyda'r heddlu a'r Bartneriaeth Cymunedau Diogel i atal a rhwystro ymddygiad gwrthgymdeithasol a chamddefnyddio sylweddau yn ein trefi;
- Darparu ymateb amlasiantaeth i bob math o drais a chamfanteisio troseddol ar blant ac oedolion sy'n agored i niwed;
- Atal radicaleiddio a chefnogi unigolion sy'n dioddef trais casineb, gan gynnwys codi ymwybyddiaeth.

**Manteisio i'r eithaf ar ein parciau trwy edrych ar ôl ein mannau gwyrdd a buddsoddi ynddyn nhw.**



### Er mwyn cyflawni hyn, byddwn ni'n...

- Buddsoddi yn y seilwaith parciau, gan gynnwys mannau chwarae, palmentydd, mannau eistedd a chyfleusterau garddwriaethol, a datblygu uwch gynlluniau ar gyfer ein parciau mawr a fydd yn cyflawni gwelliannau sylweddol;
- Cyflawni dulliau naturiol mewn perthynas â storio carbon, megis y rheiny sy'n ymwneud â choed, mawnog, rhostiroedd, glaswelltir sych a chorsiog a chynefinoedd naturiol eraill ledled y Fwrdeistref Sirol hefyd gyfrannu at leihau effaith nwyon tŷ gwydr a gwella ansawdd aer;
- Cynnig grantiau cymunedol ar gyfer creu man mwy gwyrdd, annog grwpiau cymunedol i fuddsoddi mewn cynlluniau gwyrddlasu bach a chanolog mewn ardaloedd trefol ar draws y Fwrdeistref Sirol;
- Archwilio cyfleoedd i greu a defnyddio ein hynni gwyrdd cynaliadwy megis cynlluniau micro-hydrodrydanol sy'n defnyddio nodweddion cwrs dŵr ac afonydd naturiol;
- Dod ag achlysuron diwylliannol a chwaraeon i'n parciau, megis Eisteddfod Genedlaethol Cymru yn 2024, a chystadlaethau T20 Criced Sir Morgannwg i Barc Ynysangharad, buddsoddi yn seilwaith y parciau er mwyn cynnal achlysuron sylweddol o'r fath.





adran

5

# FFYNIANT:

## Creu'r cyfle i bobl a busnesau fod yn arloesol, yn entrepreneuraidd ac i gyflawni eu potensial a ffynnu.




**Buddsoddi mewn canol trefi, dod â swyddi a chartrefi i ganol ein trefi i greu lleoedd bywiog, ffyniannus y mae pobl eisiau byw, gweithio a chymdeithasu ynddyn nhw.**



### Er mwyn cyflawni hyn, byddwn ni'n...

- Cefnogi busnesau newydd i agor yng nghanol trefi a busnesau cyfredol i ehangu'r hyn maen nhw'n ei gynnig trwy gynnig pecyn cymorth ariannol ac ymyraethau eang;
- Lle does dim modd i'r sector preifat fynd i'r afael â safleoedd ac eiddo gwag sydd wedi dirywio yng nghanol trefi, bydd y Cyngor yn caffael safleoedd strategol allweddol mewn modd rhagweithiol ac yn ceisio datblygu opsiynau canol tref addas mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru;
- Datblygu cynnig twristiaeth sy'n annog pobl i ddod i'r Fwrdeistref Sirol ac sy'n cynnwys atyniadau megis Twneli Cwm Rhondda ac Abernant, Zip World, Profiad y Bathdy Brenhinol, Lido Cenedlaethol Cymru a Thaith Pyllau Glo Cymru ym Mharc Treftadaeth Cwm Rhondda. Byddwn ni'n cefnogi busnesau i ddatblygu amrywiaeth o wasanaethau cyflenwol megis cynnig llety yn ein canol trefi, megis gwestai, llety gwely a brecwast o ansawdd a lleoliadau AirBnB;
- Parhau i gadw costau meysydd parcio'n isel a'i gwneud hi'n hawdd i siopwyr i ymweld â chanol trefi gan ddefnyddio trafnidiaeth gyhoeddus neu deithio llesol;
- Cefnogi busnesau lleol bach a chanolig eu maint i gyflenwi nwyddau a gwasanaethau i'r Cyngor a recriwtio'r talent leol orau posibl i gyflawni amrywiaeth o rolau, o brentisiaeth a swyddi graddedig a swyddi arwain.

**Cyflawni cynlluniau adfywio a thrafnidiaeth sylweddol, gwneud y gorau o Metro De Cymru newydd, i greu lleoedd gwell i fyw a gweithio ynddyn nhw, gan amddiffyn a gwella'r Fwrdeistref Sirol.**



### Er mwyn cyflawni hyn, byddwn ni'n...

- Ystyried ffyrdd newydd a gwahanol iawn o ran mynd i'r afael â symudedd yn y Cynllun Datblygu Lleol newydd i greu cynllun symudedd di-garbon cymdeithasol cyfiawn. Mae hyn yn gwaredu'r telerau sy'n gwneud ceir yn angenrheidiol, ac o ganlyniad yn tynnu'r pwyslais oddi ar y car wrth drin symudedd. Er enghraifft, erbyn 2030, rydyn ni angen sicrhau bod hanner o'r holl deithiau sy'n cael eu gwneud yn cael eu cyflawni trwy ddefnyddio bws, beic neu drwy gerdded. Bydd yr holl deithiau sy'n weddill yn defnyddio cerbydau trydan.
- Datblygu strategaethau Canol Tref ar gyfer canol ein prif drefi, sy'n gwerthfawrogi unigrywiaeth pob tref, gan adeiladu ar fanteision y Metro ac yn cynnwys swyddfeydd newydd i gynyddu cyfleoedd gwaith yng nghanol y dref, a chartrefi uwchben siopau i gynyddu nifer y bobl sy'n dod i ganol y dref;
- Cyflawni cynlluniau prif ffyrdd megis deuoli'r A4119, Ffordd Gyswllt ar draws y Cwm, Ffordd Osgoi Llanharan a ffordd gyswllt Cwm Cynon yr A465;
- Buddsoddi mewn nifer o gyfleusterau Parcio a Theithio ar draws y Fwrdeistref Sirol mewn safleoedd Metro strategol, gan gynnwys Cyffordd 34 yr M4;
- Sicrhau bod gan bob cartref a busnes fynediad i gysylltiad cyflym iawn, ar y lleiaf, gan sicrhau bod gan hybiau masnachol a diwydiannol allweddol fynediad i wibgysylltiad;
- Arwain ar waith cynllunio'r anheddiad newydd yn Llanilid a'r cysylltiad â'r M4 a'r holl gysylltiadau rheilffordd cyfredol;
- Cefnogi datblygwyr tai i ddod â datblygiadau tai mawr i safleoedd tir llwyd, megis hen Lofa Cwm Coking yn Y Beddau a hen Weithfeydd Phurnacite yn Aberaman.







**Sicrhau bod gyda ni ysgolion da fel bod modd i bob plentyn gael addysg wych.**



### Er mwyn cyflawni hyn, byddwn ni'n...

- Gwella cyflawniad disgyblion a lleihau'r bwlch o ran cyrhaeddiad;
- Gwella deilliannau i blant a phobl ifainc sydd ag anghenion addysgol arbennig ac anableddau;
- Cefnogi plant i gael y dechrau gorau mewn bywyd a sicrhau eu bod nhw'n barod ar gyfer dysgu trwy gynnig system blynyddoedd cynnar a chynnig gofal plant gwell;
- Buddsoddi mewn Ysgolion yr 21ain Ganrif newydd a gwell, ateb y galw am ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg ar hyd a lled y Fwrdeistref Sirol;
- Cefnogi ysgolion i gyflwyno a mewnblannu'r cwricwlwm newydd mewn modd llwyddiannus, codi safonau cyflawniad addysgol pob disgybl;
- Cefnogi disgyblion i ddeall y byd gwaith a chael mynediad i gyngor ac arweiniad gyrfaoedd da.


**Cynyddu nifer y cartrefi o ansawdd sydd ar gael ac sy'n fforddiadwy er mwyn darparu dewis tai gwell i breswylwyr.**



### Er mwyn cyflawni hyn, byddwn ni'n...

- Cynyddu'r cyflenwad tir ar gyfer cartrefi carbon isel, cynaliadwy newydd yn rhan o Gynllun Datblygu Lleol wedi'i ddiweddaru neu Gynllun Datblygu Strategol o 2021;
- Sicrhau bod datblygiadau tai a datblygiadau masnachol newydd yn cynnwys ynni solar, ble'n bosibl, a meddu ar y gallu i gynhyrchu, storio a defnyddio ynni adnewyddadwy ar y safle;
- Cefnogi adeiladwyr tai maint bach a maint canolig i ddatblygu tai gyda chymorth Cronfa Buddsoddi Tai y Fargen Ddinesig.
- Darparu gwasanaeth cymorth hunanadeiladu cartrefi cynhwysfawr, gan gynnwys morgeisi, ar gyfer pobl sy'n adeiladu cartrefi newydd am y tro cyntaf ar safleoedd y mae'r Cyngor yn eu perchen (Cynllun "Plot Shop");
- Parhau i adeiladu cartrefi Gofal Ychwanegol a chartrefi arbennig wedi'u haddasu ar gyfer yr henoed a phreswylwyr sy'n agored i niwed, datblygu opsiynau tai arloesol ar gyfer pobl ifainc mewn angen, a darparu datrysiadau tai addas ar gyfer pobl ddigartref;
- Parhau i adfer eiddo gwag trwy gynnig amrywiaeth o ymyraethau a chymorth;
- Parhau i gefnogi landlordiaid ac asiantiau lleol cyfrifol i sicrhau bod gyda nhw sector rhentu preifat fforddiadwy ac o ansawdd. Byddwn ni'n parhau i gynnal ein dull gorfodi wedi'i dargedu yn erbyn landlordiaid gwael a thai wedi'u rhentu sydd ddim yn ddiogel gan fanteisio i'r eithaf ar bwerau ymyrryd rheoleiddiol y Cyngor er mwyn gwella cyflwr tai.

**Helpu pobl i gael gwaith a swyddi sy'n talu'n well.**



### Er mwyn cyflawni hyn, byddwn ni'n...

- Gweithio gyda phartneriaid i ddarparu cymorth cyflogaeth, gan ddefnyddio'r Cyllid Ewropeaidd sy'n weddill;
- Cynnig cynlluniau cyflogaeth a phrentisiaeth yn y Cyngor, ar safleoedd adfywio a thrwy gontractwyr eraill y Cyngor;
- Cynnig cymorth penodol i helpu pobl i ddod o hyd i waith megis, pobl sy'n gadael gofal, pobl ag anableddau ac unigolion sy'n hawlio Credyd Cynhwysol;
- Hyrwyddo prentisiaeth ar draws y Fwrdeistref Sirol, a chefnogi busnesau i ddefnyddio'r ardoll brentisiaeth;
- Parhau i gefnogi rhieni sy'n gweithio i ddychwelyd i'r gwaith yn rhan o Gynllun Cynnig Gofal Plant 30 Awr Llywodraeth Cymru.



adran 6

# Ein Dull

Er mwyn cyflawni ein gweledigaeth, i wneud cynydd o ran cyflawni'r blaenoriaethau yma ac ymateb i'r heriau ariannol sylweddol rydyn ni'n parhau i'w hwynebu, byddwn ni'n:

### Byw ar yr hyn sydd gyda ni, ac yn

- Darparu'r gwasanaethau mwyaf pwysig trwy wneud penderfyniadau i flaenoriaethu ein hadnoddau cyfyngedig;
- Cynnig gwerth am arian i drethdalwyr a sicrhau ein bod ni'n agored o ran sut rydyn ni'n gweithredu, cynnal cynnydd isel o ran Treth y Cyngor o'i gymharu â Chynghorau eraill Cymru;
- Manteisio ar bob cyfle i leihau costau cynnal y Cyngor;
- Cymryd camau i leihau ôl troed carbon y Cyngor i "Sero-Net" trwy gynnig dull cynaliadwy i gaffael ynni, cyflenwadau a gwasanaethau;
- Sicrhau bod cerbydau'r Cyngor, cerbydau wedi'u comisiynu sy'n darparu gwasanaeth cludiant rhwng y cartref a'r ysgol, gweithredwyr bysiau a cherbydau tacsi yn addas i'r diben a'u bod nhw'n dda o ran materion yr amylchedd.

### Gweithio mewn ffordd effeithlon ac effeithiol fel Cyngor, ac yn

- Rheoli ein harian a'n contractiau mewn modd cadarn;
- Cynnig y cymorth sydd ei angen ar breswylwyr a busnesau yn y pwynt cyswllt cyntaf a chynnig mynediad gwell i wasanaethau ar-lein a chymorth;
- Trin preswylwyr yn gyfartal, gyda dealltwriaeth a pharch, gan sicrhau bod gan bawb fynediad i wasanaethau o ansawdd, p'un a ydyn nhw'n dymuno cyfathrebu â'r Cyngor yn Saesneg neu Gymraeg.

### Gwneud y gorau o gyfleoedd a

- Gweithredu dull masnachol i gynhyrchu incwm, a chwilio am gyfleoedd newydd i gynhyrchu refeniw o'n hasedau. Mae hyn yn cynnwys cynhyrchu ynni gwyrdd i'w ddefnyddio mewn adeiladau lleol a chartrefi;
- Defnyddio technoleg ac arloesedd digidol sy'n esblygu i'n helpu i gyflawni deilliannau gwella a dod yn fwy effeithlon;
- Manteisio ar gyfleoedd gan Lywodraeth Cymru, Y Fargen Ddinesig, neu buddsoddi a datblygu gan y sector preifat er mwyn hwb i'r economi leol, creu swyddi lleol yn rhan o fentrau mawr, megis y Metro.

### Rhannu cyfrifoldeb a

- Gweithio gyda phreswylwyr a'r gymuned i rannu cyfrifoldeb, helpu cymunedau i wneud mwy dros eu hunain a rhoi cyfle iddyn nhw reoli mwy o'r hyn y mae modd iddyn nhw'i wneud i gefnogi pobl leol yn eu cymunedau;
- Canolbwyntio ar ymyrraeth a chymorth cynnar mewn cymunedau lleol fel bod modd i breswylwyr fyw'n annibynnol cyhyd ag y bo modd;
- Gweithio mewn partneriaeth â darparwyr eraill y sector cyhoeddus i wneud y mwyaf o effaith ein hadnoddau a gwella gwasanaethau i'r cyhoedd.






adran 7

# Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

Mae'r Cyngor yn parhau i ystyried gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 wrth lunio'r Cynllun Corfforaethol yma.


Mae'r Ddeddf yn canolbwyntio ar wella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae'r ddeddf yn gwneud i gyrff cyhoeddus, fel y Cyngor, feddwl rhagor am y tymor hir, i weithio'n well gyda phobl a chymunedau a'i gilydd, ac i chwilio am ffyrdd i atal problemau a mabwysiadu dull sy'n fwy cydweithredol. Bydd hyn yn ein helpu i greu Cymru well i'w thrigolion, heddiw ac yn y dyfodol. I sicrhau ein bod ni gyd yn gweithio tuag at yr un weledigaeth, mae'r Ddeddf yn nodi saith nod Llesiant:




- **Cymru lewyrchus**
- **Cymru gydnerth**
- **Cymru iachach**
- **Cymru sy'n fwy cyfartal**
- **Cymru o gymunedau cydlynus**
- **Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu**
- **Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang**

Dull y Cyngor mewn perthynas â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yw cynnwys ei holl ofynion yn rhan o waith y Cyngor. Mae'r blaenoriaethau sydd wedi'u nodi yn y Cynllun Corfforaethol hefyd yn gweithredu fel Amcanion Llesiant y Cyngor.

Mae'r Cynllun Corfforaethol yma'n pennu gweledigaeth, blaenoriaethau ac egwyddorion sy'n parhau i wneud y gorau o gyfraniad y Cyngor mewn perthynas â'r saith nod Llesiant cenedlaethol. Bydd y nodau cenedlaethol, ynghyd â'r Pum Ffordd o Weithio, yn parhau i gael eu cynnwys yn rhan o'r cynlluniau gweithredu manwl a fydd yn cyflawni tair blaenoriaeth y Cyngor.



adran **8**

# Sut rydyn ni'n cyfrannu at y nodau

Ar hyn o bryd mae enghreifftiau o sut mae'r Cynllun Corfforaethol drafft yn cyfrannu at y saith nod Llesiant cenedlaethol yn cynnwys:

| | POBL | LLEOEDD | FFYNIANT |
|---|---|---|---|
| **CYMRU LEWYRCHUS** | • Ymyrraeth gynnar gyda theuluoedd i'w cadw gyda'i gilydd yn ddiogel.<br>• Gwella iechyd emosiynol a meddyliol a llesiant plant a phobl ifainc trwy gynyddu'r amrywiaeth o wasanaethau arbenigol sydd ar gael.<br>• Bod yn rhiant corfforaethol da i blant mewn gofal a'r rheiny sy'n gadael gofal.<br>• Parhau i gynnig cymorth i oedolion o oedran gweithio sydd ag anghenion iechyd meddwl.<br>• Cynnig cymorth penodol i helpu pobl megis unigolion sy'n gadael gofal, pobl ag anableddau ac unigolion sy'n hawlio Credyd Cynhwysol i ddod o hyd i waith.<br>• Parhau i gefnogi rhieni sy'n gweithio i ddychwelyd i'r gwaith yn rhan o Gynllun Cynnig Gofal Plant 30 Awr Llywodraeth Cymru. | • Cadw pobl a thraffig yn symud ar ffyrdd a phalmentydd wedi'u cynnal yn dda.<br>• Datblygu cynlluniau pwysig a fydd o fudd i gymunedau yn awr ac yn y dyfodol, gan gynnwys trafnidiaeth gyhoeddus well. | • Darparu cyfleoedd i fusnesau ddod i'r amlwg a ffynnu.<br>• Adeiladu cartrefi newydd.<br>• Creu cyfleoedd ar gyfer swyddi.<br>• Darparu ysgolion lle mae modd i bob plentyn gyflawni'r hyn a allai.<br>• Datblygu'r cynnig Twristiaeth a chefnogi busnesau i fodloni anghenion ymwelwyr.<br>• Sicrhau bod gan bob cartref a busnes fynediad i gysylltiad cyflym iawn, ar y lleiaf, gan sicrhau bod gan hybiau masnachol a diwydiannol allweddol fynediad i wibgysylltiad. |
| **CYMRU GYDNERTH** | • Lleihau aflonyddu ar safleoedd a gwastraff materol gydag amserlenni adeiladu byrrach. | • Buddsoddi yn ein Mannau Gwyrdd a'u gwerthfawrogi<br>• Cyflawni dulliau storio carbon niwtral, megis y rheiny sy'n cael eu darparu gan goed, mawnogydd, a glaswelltir corsiog. | • Hyrwyddo bioamrywiaeth trwy amddiffyn cynefinoedd cyfredol ble'n bosibl. |
| **CYMRU IACHACH** | • Helpu pobl i aros mor iach ag y gallan nhw cyhyd ag y gallan nhw trwy annog gweithgarwch cynyddol.<br>• Cynlluniau atgyfeirio Meddyg Teulu a rhaglenni ymyrraeth iechyd a llesiant eraill.<br>• Cynnig cymorth ymyrraeth gynnar er mwyn i bobl gadw'n weithgar a bod yn fwy annibynnol yn y gymuned. | • Parhau i fynd i'r afael â throseddau amgylcheddol. | • Buddsoddi yn ein mannau chwarae, canolfannau hamdden a chyfleusterau i'r gymuned mewn ysgolion.<br>• Sicrhau bod gan ddatblygiadau tai a datblygiadau masnachol y capasiti i gynhyrchu, storio a defnyddio ynni adnewyddadwy.<br>• Ei gwneud hi'n haws i siopwyr ddefnyddio trafnidiaeth gyhoeddus neu deithio llesol i gyrraedd canol ein trefi. |
| **CYMRU SY'N FWY CYFARTAL** | • Gwneud yn siŵr bod modd i drigolion gael mynediad at wasanaethau waeth beth fo'u cefndir neu'u hamgylchiadau.<br>• Rhagnodi Cymdeithasol er mwyn atgyfeirio pobl i ymyraethau yn y gymuned. | • Gwneud yn siŵr bod modd i'n trigolion o bob oed fwynhau ein parciau a'n mannau gwyrdd. | • Darparu cyfleoedd ar gyfer ein holl drigolion i wella'u sgiliau digidol.<br>• Cadw ffioedd Meysydd Parcio mor isel ag sy'n bosibl. |

| | POBL | LLEOEDD | FFYNIANT |
|---|---|---|---|
| **CYMRU O GYMUNEDAU CYDLYNUS** | • Gweithio gyda Meddygon Teulu Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg i ddarparu rhagor o wasanaethau iechyd a gofal yn agosach i'r cartref.<br>• Helpu pobl i aros yn eu cartrefi eu hunain am gyfnod hirach.<br>• Darparu cyfleoedd Gofal Ychwanegol i bobl sydd angen cymorth ychwanegol.<br>• Gweithio gyda phreswylwyr a'r gymuned i rannu cyfrifoldeb, helpu cymunedau i wneud mwy drostyn nhw eu hunain a rhoi cyfle iddyn nhw rheoli mwy o'r hyn y mae modd iddyn nhw'i wneud i gefnogi pobl leol yn eu cymunedau. | • Cynnal dull gorfodi wedi'i dargedu yn erbyn landlordiaid gwael a thai rhent sydd ddim yn ddiogel. | • Adfer eiddo gwag.<br>• Gwella tai i'n holl drigolion a chreu cymdogaethau dymunol i gymunedau ffynnu.<br>• Darparu gwasanaeth cymorth hunanadeiladu cartrefi. |
| **CYMRU Â DIWYLLIANT BYWIOG LLE MAE'R GYMRAEG YN FFYNNU** | • Cynyddu ymgysylltu a chyfranogiad yn y celfyddydau a diwylliant, gan ddatblygu ein theatrau i fod yn fwy cynhwysol a hygyrch i'r gymuned gyfan.<br>• Atal pobl ifainc rhag dod ynghlwm â thrais, trosedd, camfanteisio ac ymddygiad gwrthgymdeithasol trwy gynnig amrywiaeth ddulliau ymyrraeth gynnar ac ymgysylltu sy'n ymwneud â diwylliant, chwaraeon a phethau eraill.<br>• Darparu rhagor o gyfleoedd ar gyfer ein trigolion i gyfathrebu â'r Cyngor ac â'i gilydd yn Gymraeg. | • Achlysuron diwylliannol a chwaraeon i bawb yn ein parciau.<br>• Datblygu'r cynlluniau ar gyfer yr Eisteddfod. | • Hyrwyddo RhCT fel cyrchfan i ymwelwyr.<br>• Sicrhau mynediad cyfartal i'r Gymraeg ym mhob un o'n gwasanaethau. |
| **CYMRU SY'N GYFRIFOL AR LEFEL FYD-EANG** | • Sicrhau bod cerbydau sy'n darparu gwasanaeth cludiant rhwng y cartref a'r ysgol, gweithredwyr bysiau a cherbydau tacsi yn addas i'r diben ac sydd mor ecogyfeillgar ag sy'n bosibl. | • Cerbydau'r Cyngor sy'n cyfyngu effaith ar yr amgylchedd.<br>• Dull cylchol o ran ailgylchu ac ailddefnyddio.<br>• Cael gwared ar blastigau defnydd untro ar draws y Cyngor ac mewn ysgolion.<br>• Symud y Parc Eco ym Mryn Pica yn ei flaen. | • Cyfleoedd i greu ein ynni gwyrdd cynaliadwy ein hunain, a'i ddefnyddio, megis cynlluniau.<br>• Cynyddu cyflenwad cartrefi carbon isel. |